

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon**  
Annual Report & Accounts  
**11/12**



**Comisiynydd  
Plant Cymru**  
Children's  
Commissioner  
for Wales



---

05	Rhagair Introduction
08	Sut rydyn ni wedi hyrwyddo How we have championed
14	Sut rydyn ni wedi gwrando a chynnwys plant a phobl ifanc How we have listened and involved children and young people
22	Sut rydyn ni wedi cyngori How we have advised
28	Llywodraeth newydd, heriau newydd New government, new challenges
38	Materion polisi Policy issues
64	Casgliad Conclusion
66	Cyfrifon Accounts

---

---

# Comisiynydd Plant Cymru Children's Commissioner for Wales

Rhagair gan/Introduction by  
Keith Towler

Mae'r adroddiad hwn yn trafod yr hyn a ddigwyddodd rhwng  
1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012.

This report covers the period 1 April 2011 to 31 March 2012.

---

**Anaml y mae'n digwydd, ond pan fydd yn digwydd, mae'n bendant yn werth chweil. Yr hyn rwy'n cyfeirio ato yw neilltuo amser i feddwl a myfyrio. Roedd y llynedd yn gyfle priodol i'm Swyddfa wneud hynny. Roedden ni'n dathlu 10 mlynedd, ac fe wnaethon ni dreulio amser yn meddwl am ein gwaith yn y gorffennol, yn ystyried beth sydd wedi gwella, ac yn ystyried hefyd a ydyn ni'n wir yn cyflawni ar ran plant a phobl ifanc.**

**Y canlyniad? Fe gyhoeddais i adroddiad – 'Ar Goll ar ôl Gofal' – a aeth â ni yn ôl i ganfyddiadau ymchwiliad Syr Ronald Waterhouse yn 2000 i gam-drin plant mewn gofal. Bu'r tîm hefyd yn cwblhau gwaith ar fy Adolygiad cyntaf fel Comisiynydd Plant, yn edrych ar ddarpariaeth eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen. Daeth y ddau ddarn yma o waith â ni yn ôl at un o'm gwerthoedd craidd: gwrando ar blant a phobl ifanc.**

**Mae'r Adroddiad Blynyddol yma yn offeryn arall y gallwn ei ddefnyddio i ymateb i'r camau a gymerwyd gan y llywodraeth dros blant a phobl ifanc. Mae'n adroddiad sy'n manylu ar y cyflawniadau pwysig, ac yn un a fydd, gobeithio yn annog pobl i gyflawni'r hyn a addawyd. Ond sut gallwn ni wybod a yw'r Llywodraeth ac eraill yn cyflawni dros blant? Wrth ymgysylltu â phlant, eu holi, a gwrando i weld a ydyn ni'n cael effaith bositif ar eu bywydau.**

---

**It doesn't happen often but when it does it's most certainly a worthwhile exercise. I'm talking about taking time out to think and to reflect. Last year was quite an opportune time for my Office to do just that. We were celebrating our tenth anniversary and spent time reflecting on previous work, reflecting on what's improved, reflecting on whether we're actually delivering for children and young people.**

**The result? I published a report – 'Lost After Care' – that took us back to the findings of Sir Ronald Waterhouse's 2000 inquiry into the abuse of children in care. The team also completed work on my first Review as the Children's Commissioner, looking into the provision of independent professional advocacy for looked-after children and young people, care leavers and children in need. Both pieces of work returned us to one of my core values: listening to children and young people.**

**This Annual Report is another vehicle by which we can reflect on government actions for children and young people. It's a report which details the significant achievements, and one that I hope will motivate people to put in place what's been promised. But how are we to know whether government and others are delivering for children? By engaging with children, questioning them, and listening to see whether we're making a positive impact on their lives.**

---

# Sut rydyn ni wedi hyrwyddo

---

How we have  
championed



# Rydym yn siarad ar ran plant a phobl ifanc ledled y wlad ar faterion pwysig – fel eiriolwr dros blant yng Nghymru.

Er mwyn adeiladu proffil gwaith y Comisiynydd a hawliau plant, mae swyddogaeth gyfathrebu'r swyddfa yn gweithredu rhaglen cysylltiadau cyfryngau. Eleni, gwelodd y swyddfa gynnydd o 149% yn y sylw yn y cyfryngau: sicrhawyd 524 o erthyglau, gan greu 719 miliwn o gyfleoedd i ddarllen neu glywed am waith y Comisiynydd. Roedd y sylw hwn yn cyfateb i werth £1.3 miliwn o hysbyseb – hynny yw, cost prynu'r lle a gawson mewn hysbyseb.

Hefyd defnyddiwyd offer cyfathrebu ar-lein i rannu gwybodaeth am waith y Comisiynydd. Gwelwyd cynnydd o 34% yn yr ymweliadau â gwefan y Comisiynydd – 2.3 miliwn – a denwyd bron 43,000 o ymwelwyr gwahanol.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol hefyd yn elfen amlwg o gynllun cyfathrebu'r swyddfa. Defnyddir proffil Twitter y Comisiynydd – yr oedd 1,200 yn ei ddilyn ar y proffil Saesneg a 160 ar y proffil Cymraeg ar 31 Mawrth 2012 – i rannu gwybodaeth, ymgysylltu â phartneriaid allweddol, gan gynnwys pobl ifanc, a hefyd yn gyfle i bobl geisio cyngor a chefnogaeth.

Agwedd arall ar y swyddogaeth gyfathrebu eleni oedd cynrychioli swyddfa'r Comisiynydd trwy arsylwi grŵp Erthygl 42 – is-grŵp i Grŵp Monitro CCUHP Cymru. Y nod oedd canfod y dulliau gorau o ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig a'r Hawliau'r Plentyn (CCUHP) i hyfforddiant cyn ac ar ôl cymhwyso i athrawon, gweithwyr iechyd proffesiynol, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal plant. Ar ben hynny, cynhaliwyd gwrandawliadau gyda gweithwyr proffesiynol allweddol er mwyn gweld sut gellid ymgorffori CCUHP ar draws holl gwricwlwm yr ysgolion, a chynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant ymhlith rhieni a gofalwyr. Cyflwynwyd cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru.

Yn anffodus penderfynodd y cynhalwyr y dylai gwaith yr is-grŵp gael ei lyncu gan y Grŵp Monitro llawn pan ddaeth Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) i rym. Er nad oes gwaelodlin cenedlaethol cytunedig o ran ymwybyddiaeth o CCUHP ymhlith gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yn gyffredinol, ymddengys bod gwybodaeth ac ymwybyddiaeth yn dal yn isel. Byddai'r argymhellion a ddrafftwyd gan y grŵp Erthygl 42, a fyddai'n sicrhau bod CCUHP yn cael ei brif-frydio i'r cwricwla allweddol, yn gam pwysig at ddelio â lefelau ymwybyddiaeth gwael. Mae swyddfa'r Comisiynydd yn awr yn ystyried pa rôl y gall ei chwarae o ran galw'r llywodraeth i gyfrif ynghylch yr argymhellion hyn.

# We speak up for children and young people nationally on important issues – being the children's champion in Wales.

In order to build the profile of the Commissioner's work and of children's rights, the communications function of the office implements a media relations programme. This year, the office saw a 149% increase in media coverage: 524 pieces of coverage were secured, generating 719 million opportunities to read or hear about the Commissioner's work. This coverage equated to £1.3m advertising value equivalent – the cost of buying the space had the article been an advertisement.

Online communications tools were also used to share information about the Commissioner's work. The Commissioner's website saw a 34% increase in hits – over 2.3m – and attracted nearly 43,000 unique visitors.

Social media also features prominently within the office's communications plan. The Commissioner's Twitter profile – which on 31 March 2012 had 1,200 followers on the English language profile and 160 on the Welsh language profile – is used to share information, engage with key partners including young people and provides an opportunity for people to seek advice and support.

Another aspect of the communications function this year was to represent the Commissioner's office as observers of the Article 42 group – a sub-group of the Wales UN Convention on the Rights of the Child (UNCRC) Monitoring Group. Its aim was to identify the best methods for incorporating the UNCRC into pre and post qualification training for teachers, health professionals, social workers and childcare workers. In addition, hearings were held with key professionals to establish how to incorporate the UNCRC across the whole school curriculum and how to raise awareness of children's rights amongst parents and carers. A series of recommendations were put forward to Welsh Government.

Unfortunately a decision was taken by the hosts to subsume the work of the sub-group into the full Monitoring Group at a time when the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure came into effect. Whilst there is no agreed national baseline for awareness of the UNCRC among professionals and the general public, it seems that knowledge and awareness is still low. The recommendations drafted by the Article 42 group, which would see the UNCRC mainstreamed into key curricula, would go some way in dealing with poor awareness levels. The Commissioner's office is now considering what role it can play in holding government to account on these recommendations.

## Digwyddiadau allweddol

### Dathlu 10 mlynedd a lansio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 10/11

I nodi'r garreg filltir bwysig hon, cynhaliwyd dau ddigwyddiad yn y Senedd ac yn San Steffan, lle clywodd y rhai oedd yn bresennol gan Ei Anrhydedd y Barnwr Nicholas Cooke QC a'r Arglwydd Elystan Morgan. Yn y digwyddiad ym Mae Caerdydd, daeth 60 o ddisgyblion i sesiwn holi ac ateb arbennig gyda Phrif Weinidog Cymru Carwyn Jones a'r Comisiynydd.

### Lansio 'Ar Goll ar ôl Gofal'

Ymunodd dwsinau o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal â ni yn y Senedd ym mis Mehefin i helpu i lansio 'Ar Goll ar ôl Gofal', adroddiad oedd yn amlygu'r materion sy'n effeithio ar blant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal yng Nghymru.

### Darlith Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC)

Traddododd y Comisiynydd ddarlith addysg flynyddol CyngACC o'r llwyfan, ac wrth iddo annerch cannoedd o athrawon ac addysgwyr eraill, holodd a yw Cymru'n wir yn gwrandao ar ei phlant a'i phobl ifanc, ac apeliodd ar ysgolion i ddysgu trwy lygaid y disgyblion. I wrando ar ei anerchiad, ewch i: <http://www.gtcw.org.uk>

### Diwrnod Rhyngwladol y Plentyn:

#### adroddiad canol tymor Comisiynwyr Plant y Deyrnas Unedig

I nodi Diwrnod Rhyngwladol y Plentyn, ar 20 Tachwedd 2011 cyhoeddodd pedwar Comisiynydd Plant y DU adroddiad ar y cyd oedd yn edrych ar y cynnydd a wnaed mewn pum maes – cyfranogiad, plant ag anableddau, tlodi plant, plant sy'n ceisio lloches a chyfiawnder ieuencid – yn erbyn CCUHP. Prif neges yr adroddiad oedd galwad am ailasesu ar frys effaith Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU ar anghenion plant agored i niwed. Daw'r adroddiad canol tymor hwn hanner ffordd trwy gylch adrodd y Confensiwn, sy'n gofyn bod Llywodraeth y DU, sef Plaid y Wladwriaeth, yn adrodd ar gynnydd i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn bob pum mlynedd, Cyflwynodd y DU adroddiad i'r Pwyllgor ddiwethaf yn 2008.

### Memorandwm o Ddealltwriaeth

Eleni, cytunwyd ar Femorandwm arall o Ddealltwriaeth rhwng swyddfa'r Comisiynydd a Chyngor Gofal Cymru. Dyma'r ychwanegiad diweddaraf i'r gyfres o femoranda a ddatblygwyd yn ystod y pedair blynedd diwethaf, gan gynnwys gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a CAFCASS Cymru.

## Key events

### Tenth anniversary & launch of Annual Report & Accounts 10/11

To mark this key milestone, two events were held in the Senedd and in Westminster where attendees heard from His Honour Judge Nicholas Cooke QC and Lord Elystan Morgan. The Cardiff Bay event saw 60 pupils attend a special question and answer session with the First Minister Carwyn Jones and the Commissioner.

### Launch of 'Lost After Care'

Dozens of looked after children and young people joined us at the Senedd in June to help launch 'Lost After Care', a report highlighting the issues affecting looked after children and care leavers in Wales.

### General Teaching Council for Wales' (GTCW) lecture

The Commissioner took to the stage to deliver the GTCW's annual education lecture. Addressing hundreds of teachers and other educationalists, he questioned whether Wales is really listening to its children and young people and pleaded for schools to learn through the eyes of pupils. To listen to his speech, visit: <http://www.gtcw.org.uk/>

### International Day of the Child:

#### UK Children's Commissioner's midterm report

To mark International Day of the Child, on 20 November 2011 the four UK Children's Commissioners published a joint report which examined progress made in five areas – participation, children with disabilities, child poverty, children seeking asylum and juvenile justice – against the UNCRC. The report's main message was a call for an urgent reassessment of the impact of the UK Government's Spending Review on the needs of vulnerable children.

This midterm report comes half way through the Convention's reporting cycle, which requires UK Government, as the State Party, to report on progress to the UN Committee on the Rights of the Child every five years. The UK last reported to the Committee in 2008.

### Memorandum of Understanding

This year, a Memorandum of Understanding was agreed between the Commissioner's office and the Care Council for Wales. It is the latest addition to the suite of memoranda developed over the last four years, including with the Older People's Commissioner for Wales, Public Services Ombudsman for Wales and CAFCASS Cymru.

# Sut rydyn ni'n gwrando ac yn cynnwys plant a phobl ifanc

How we have  
listened and  
involved children  
and young people





# Rydyn ni'n gwrando ar blant a phobl ifanc i ganfod beth sy'n bwysig iddyn nhw.

Ein gweledigaeth yw gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru ac ar eu rhan, i gyflawni newidiadau cadarnhaol a pharhaol yn eu bywydau. Mae pob aelod o dîm y Comisiynydd, felly, yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc, o ble bynnag yng Nghymru y maent, yn cael gwybod am waith y Comisiynydd, cyfle i ddylanwadu arno, a chyfle i gael gwrandawriad ganddo.

Yn 2011 fe wnaethon ni ddatblygu ein 'darlun mawr' ar gyfer ein cynllun cyfranogiad. Ei nod yw ein helpu i ddatblygu sut mae'r swyddfa'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, ac mae'n egluro pam a sut mae'r fîm yn eu cynnwys yn eu gwaith. Mae gwaith wedi bod yn parhau i sicrhau bod y darlun mawr yn dod yn rhan o arferion gwaith pawb trwy greu pecynnau offer i staff a darparu hyfforddiant a chefnogaeth. Mae hyn yn golygu bod elfennau cyfranogiad ein gwaith yn hygyrch i'r staff, ac yn agor cyfleoedd ymgysylltu i bawb sy'n gweithio yn y swyddfa – i bob pwrpas, mae'r holl staff yn cael cyfle i gwrdd â phlant a phobl ifanc.

Un o'n ffyrdd o wrando ar blant a phobl ifanc yw ein rhwydwaith o ysgolion llysgenhadon. Eleni rydym wedi gweld cynnydd o 61% yn nifer yr ysgolion sydd wedi cofrestru fel ysgolion llysgenhadon. Llysgenhadon yw disgyblion a gaiff eu hethol gan eu cyfoedion; eu gwaith yw cynyddu ymwybyddiaeth o Gomiisynydd Plant Cymru a hawliau plant, a amlinellwyd yn y CCUHP, yn eu hysgolion a'u cymunedau ehangach.

Er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am y cynllun ar gael yn hwylys i bob ysgol, mae Swyddogion Cyfranogiad wedi bod yn creu cysylltiadau â chynlluniau cenedlaethol eraill, gan gynnwys Cynllun Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru. Mae'r cyswllt diweddaraf hwn yn galluogi ysgolion sy'n ymuno â'r cynllun llysgenhadon i'w ddefnyddio'n dystiolaeth o gam tuag at achrediad ysgolion iach. Mae trafodaethau hefyd yn parhau i sefydlu cysylltiadau tebyg gyda Ysgolion Eco ac ysgolion Masnach Deg.

Cryfhawyd cysylltiadau hefyd rhwng Swyddfa'r Comisiynydd a Chynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru, y Ddraig Ffyni. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae aelodau o dîm y Comisiynydd wedi cwrdd ag aelodau i drafod cyfleoedd i'r Ddraig Ffyni helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o rôl y Comisiynydd a CCUHP, sut gallai'r aelodau gysgodi'r Comisiynydd ar amrywiol ymweliadau, a sut gallen nhw helpu'r Pwyllgor Archwilio yn ei waith o alw'r Comisiynydd i gyfrif. Blwyddyn beilot oedd hon, a bydd yr aelodau yn treulio Ebrill 2012 yn gwerthuso, cyn penderfynu sut mae adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd eisoes.

Un o'r darnau allweddol o waith i helpu i nodi 10 mlwyddiant y Comisiynydd oedd datblygu bathodyn cyntaf y Deyrnas Unedig ar gyfer Sgowtiaid a Geidiau yng Nghymru, am y Swyddfa a CCUHP. Datblygwyd yr Her Hawliau ar gyfer Geidiau Brownie, Sgowtiaid Cub, Sgowtiaid a Geidiau, yr Adran Hŷn a Sgowtiaid Antur, a hyd yma mae 45 o sgowtiaid a 150 o geidiau wedi llwyddo i gwblhau'r her.

Ffocws arall ar gyfer y fîm eleni oedd cadw cyfranogiad ar frig yr agenda wleidyddol, gan ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ganllawiau cyfranogiad newydd ar gyfer awdurdodau lleol, ymgynghoriad Gwaith Ieuencid yng Nghymru ar Egwyddorion a Dibenion, ac amlinellu'r cynnydd a wnaed yng Nghymru o ran cyfranogiad wrth sicrhau cynhwysiad yn adroddiad ar y cyd Comisiynwyr Plant y DU i Lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2012. Er ein bod yn croesawu Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, sy'n darparu sail statudol ar gyfer cyfranogiad plant ym mhenderfyniadau awdurdodau lleol, prif neges y dogfennau hyn yw y dylai'r Llywodraeth gefnogi a chynyddu cyfleoedd i blant gyfranogi ym mhob maes.

Elfen graidd o ddyddiadur y Comisiynydd yw ymweld â ysgolion ledled Cymru. Mae'r map yn dangos ble bu eleni – dyw e ddim yn nodi ei ymweliadau i grwpiau arall o blant a phobl ifanc megis fforymau ieuencid, cyfarfodydd unigol, ac ymweliadau i rheiny sydd wedi'u lleoli tu allan i Gymru.

# We listen to children and young people to find out what's important to them.

Our vision is to work with and on behalf of children and young people in Wales to achieve positive and lasting changes in their lives. As such, every member of the Commissioner's team works directly with children and young people to ensure that all children and young people, wherever they're from in Wales are informed about, and have the opportunity to be listened to by, and influence the Commissioner's work.

In 2011 we developed our participation plan 'big picture'. Its aim is to help us develop the way the office works with children and young people and makes it clear why and how the team involve them in their work. Work has been ongoing to embed the big picture into everyone's working practices by creating staff toolkits, providing training and support. This makes the participation elements of our work accessible to staff, opening up engagement opportunities to everyone who works at the office effectively giving all staff the opportunity to meet with children and young people.

One of the ways we listen to children and young people is through our network of ambassador schools. This year we have seen a 61% increase in the number of schools who have registered as ambassador schools. Ambassadors are primary school pupils who are elected by their peers; their job is to raise awareness about the Children's Commissioner for Wales and children's rights, outlined in the UNCRC, within their schools and wider communities.

To ensure information about the scheme is readily available to all schools, Participation Officers have been forging links with other national schemes including the Welsh Network of Healthy Schools Scheme. This latest link enables schools who sign up to the ambassador scheme to evidence it as an action towards the healthy schools accreditation. Discussions are also ongoing to set up similar links with Eco schools and Fair Trade schools.

Links have also been strengthened between the Commissioner's Office and Funky Dragon. Over the last twelve months members of the Commissioner's team have met with members to scope out opportunities of how Funky Dragon can help raise awareness of the Commissioner's role and the UNCRC, how members could shadow the Commissioner on various visits and how they could help the Office's Audit Committee with its role in holding the Commissioner to account. This was a pilot year and members will spend April 2012 evaluating before deciding how to build on what's already been achieved.

One of the key pieces of work to help mark the Commissioner's tenth anniversary was the development of a UK-first badge for Scouts and Guides in Wales about the Office and the UNCRC. The Rights Challenge has been developed for Brownie Guides, Cub Scouts, Scouts and Guides, Senior Section and Explorer Scouts and, to-date, 45 scouts and 150 guides have successfully completed the challenge.

Another focus for the team this year was to keep participation high on the political agenda, responding to Welsh Government's consultation on new participation guidance for local authorities, Youth Work in Wales' consultation on Principles and Purposes and outlining progress made in Wales around participation for inclusion in the joint UK Children's Commissioners' report to UK Government and devolved governments published in November 2012. Whilst welcoming the Children and Families (Wales) Measure 2010, which provides a statutory basis for the participation of children in local authority decision-making, these documents' principal message is for the Welsh Government to support and increase opportunities for children's participation in all walks of life.


A core component of the Commissioner's diary is to visit schools across Wales. This map indicates where he's been this year – it doesn't cover visits to other groups of children and young people, such as youth forums, meetings with individuals and visits to those who have been placed outside Wales.

**Ymweliadau i ysgolion gan Keith Towler**

**1 Ebrill 2011 – 31 Mawrth 2012**

**Keith Towler's visits to schools**

**1 April 2011 – 31 March 2012**



**Mae ein gwaith manwl gyda phobl ifanc eleni wedi canolbwyntio ar ddatblygu'r cyhoeddiadau a'r adnoddau canlynol.**

**Fy Nghynllunydd/Ar Goll ar ôl Gofal**

Ym mis Chwefror 2011, cyhoeddwyd 'Fy Nghynllunydd' a'i anfon at ddim gadael gofal pob awdurdod lleol i'w ddsbarthu i'r holl bobl ifanc 15 oed mewn gofal. Mae'r Swyddfa wedi parhau i ddsbarthu copiau o'r canllaw ar hyd 2011/12, ac mae wedi ail-argraffu yn ôl y galw.

Pan ddaeth gwasanaeth cyngor a chefnogaeth y Comisiynydd yn ymwybodol o'r amrywiadau ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc sy'n derbyn gofal o'u hawliau a'r hyn ddylai fod ar gael iddynt wrth iddynt adael gofal, ynghyd â'r gwahaniaethau yn lefel y gefnogaeth a gânt, aeth y fim ati i gynhyrchu adnodd Cymru-gyfan i'r rhai oedd yn gadael gofal.

Gan weithio gyda phobl ifanc mewn gofal a rhai oedd eisoes wedi gadael gofal, casglwyd gwybodaeth ynghylch y pynciau i'w cynnwys yn yr adnodd, megis addysg, iechyd a sgiliau byw'n annibynnol. Hefyd ceisiwyd barn pobl ifanc ynghylch golwg a theimlad yr adnodd, ac ymgynghorwyd ar ei ddyluniad. Roedden nhw'n awyddus i'r Swyddfa ddatblygu llyfr nodiadau bach, lliwgar, nad oedd yn sôn am fod mewn gofal na gadael gofal ar y clawr, o faint oedd yn hawdd ei gario o gwmpas a'i lanw â'u gwybodaeth bersonol a chysylltiadau.

Bu'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y sesiynau gyda phobl ifanc hefyd yn bwyo i'r adroddiad ffurfiol 'Ar Goll ar ôl Gofal', a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2011. Roedd yr adroddiad hwnnw'n hoelio sylw ar anghenion a hawliau'r rhai oedd yn gadael gofal, ac yn cynnwys blaenoriaethau ar gyfer gwella gwasanaethau Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Fel yn achos pob adroddiad a gyhoeddir gan y Swyddfa, mae'r swyddogaeth bolisi yn monitro gwelliannau gwasanaeth ac argymhellion o'r fath yn barhaus.

**Lleisiau Coll**

Yr adroddiad hwn oedd penllanw adolygiad y Comisiynydd o'r eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen. Eifen allweddol o gylch gorchwyl yr adolygiad oedd casglu a chyflwyno barn a phrofiadau plant a phobl ifanc. Erbyn mis Ionawr 2011, roedd 457 o blant oedd yn derbyn gofal, rhai oedd wedi gadael gofal neu blant mewn angen wedi cwblhau holiadur oedd yn ceisio eu barn ar eiriolaeth, roedd dros 100 o blant wedi dod i 10 o grwpiau ffocws, ac roedd y Comisiynydd wedi mynychu pedair fforwm yng ngofal gwahanol wasanaethau awdurdod lleol. Ym mis Mawrth, cyhoeddwyd 'Lleisiau Coll', a oedd yn cynnwys 29 o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.

**Canllaw cryno i bolisi cwynion y Comisiynydd**

Y dasg oedd cywasgu dogfen 22 tudalen i greu canllaw mwy cryno 6 tudalen ar bolisi cwynion y Comisiynydd. Cynhaliwyd gweithdai gyda grŵp o wirfoddolwyr 10 oed, yn edrych ar yr iaith a'r delweddau oedd i'w defnyddio yn y daflen. Buon nhw'n trafod beth oedd yn dda amdani, beth roedden nhw'n ei ddeall, beth oedd yn anodd, sut gallai'r daflen fod yn haws ei deall i blant a phobl ifanc iau neu'r rhai oedd yn methu darllen yn dda.

Yn y diwedd cafwyd canllaw clir, ac ymrwymiad i gynhyrchu canllaw darluniadol i gyd-fynd â'r daflen – bydd hwnnw'n cael ei ddatblygu gyda phlant iau ac ar eu cyfer.

Mae ein adroddiadau ni i gyd ar gael yma [www.complantcymru.org.uk](http://www.complantcymru.org.uk)



**Our in-depth work with young people this year focussed on developing the following publications and resources.**

**My Planner/Lost After Care**

In February 2011, 'My Planner' was published and sent to every local authority leaving care team for distribution to all 15 year olds in care. The Office has continued to disseminate copies of the guide throughout 2011/12 and has re-printed due to high demand.

When the Commissioner's advice and support service became aware of the variance in awareness among looked after young people of their rights and entitlements as they leave care, coupled with the differences in the level of support they receive, the team went about producing an all-Wales resource for care leavers.

Working with young people in care and those who had already left care, information was gleaned about the topics to be covered in the resource, including education, health and independent living skills. Views of young people were also sought around the look and feel of the resource and designs were taken out for consultation. They were keen for the Office to develop a small, colourful notebook that did not mention being in care or leaving care on the cover, which was easy to carry around and fill with their personal information and contacts.

The information gathered during the sessions with young people also informed the formal report, 'Lost After Care', published in July 2011. This report focussed attention on the needs and entitlements of care leavers and included priorities for service improvements for Welsh Government and local authorities. As with all reports published by the Office, the policy function monitors such service improvements and recommendations on an on-going basis.

**Missing Voices**

This report was the culmination of the Commissioner's review of independent professional advocacy for looked after children, care leavers and children in need. A key element of the review's terms of reference was to gather and present the views and experiences of children and young people. By November 2011, 457 looked after children, care leavers or children in need had completed a questionnaire seeking their views about advocacy, 10 focus groups had been attended by over 100 children and the Commissioner had attended four forums run by different local authority services. In March, 'Missing Voices' was published containing 29 recommendations for Welsh Government and local authorities.

**A brief guide to the Commissioner's complaints policy**

The task was to condense a 22 page document to a more concise 6 page guide of the Commissioner's complaints policy. Workshops were held with a group of ten year old volunteers looking at the language and the images to be used in the leaflet. They shared what was good about it, what they understood, what was difficult, how the leaflet could be made more accessible for younger children and young people or those who couldn't read very well.

The end result was a clear guide and a commitment to produce a picture guide to accompany the leaflet – one that will be developed with and for younger children.

All our reports can be accessed from [www.childcomwales.org.uk](http://www.childcomwales.org.uk)

---

# Sut rydyn ni wedi cyngori

---

How we  
have advised



# Rydyn ni'n cyngori plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdany'n nhw os byddan nhw'n teimlo eu bod nhw'n methu mynd â'u problemau at neb arall.

Mae gwasanaeth Cyngor a Chefnogaeth y Comisiynydd yno ar gyfer plant a phobl ifanc, a'r bobl sy'n gofalu amdanynt, fel bod ganddyn nhw rywun i droi atynt pan fydd popeth arall yn methu wrth ddelio â phroblem, neu os nad ydyn nhw'n siŵr pwy sydd ar gael i'w helpu. Mae hefyd yn wasanaeth sy'n darparu gwybodaeth a chynghor i bobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael am ddim, ac mae'n darparu cynghor annibynnol, di-duedd wedi selio ar y CCUHP gyda'r nod cyson o geisio datrys problemau'n gynnar.

Yn rheoli'r gwasanaeth mae pedwar Swyddog Ymchwiliadau a Chynghor, sy'n derbyn galwadau, negeseuon testun, trydar, e-byst a llythyron oddi wrth blant, pobl ifanc ac oedolion sydd wedi bod yn ceisio datrys problem ac sy'n teimlo nad ydynt yn symud ymlaen neu nad ydynt yn gwybod at bwy i droi.

**Eleni, gofynnwyd am gynghor gan y gwasanaeth ar 427 o achlysuron gwahanol. Cysylltwyd â swyddogion fel a ganlyn:**

- 266 dros y ffôn
- 94 drwy e-bost
- 47 drwy lythyr
- 6 neges destun.

**Cysylltwyd â nhw gan y bobl ganlynol:**

- rhieni (206)
- plentyn/person ifanc (41)
- aelod arall o'r teulu (33)

Roedd y bobl eraill yn cynnwys aelodau etholedig, gofawyr maeth, sefydliad gwirfoddol ac athrawon.

# We advise children, young people and those who care for them if they feel they've got nowhere else to go with their problem.

The Commissioner's Advice and Support service is there for children and young people, and the people who care for them, to have someone to turn to when they run out of all other options when dealing with a problem they're experiencing. It's also a service which provides information and advice to professionals working with children and young people. This is a free service, providing independent and impartial advice based on the UNCRC where the aim is always to seek resolution to a problem at an early stage.

Managing the service are four Investigations and Advice Officers, who take calls, tweets, text messages, emails and letters from children, young people and adults who have been trying to solve a problem and feel like they aren't getting anywhere. They can also assist if people don't know where to turn to for help.

**This year, advice was sought on 427 separate occasions from the service.**

**Officers received contact:**

- 266 times over the phone
- 94 times via email
- 14 times in person
- 47 times by letter
- 6 times text message.

**Contact was made by:**

- parents (206)
- child/young person (41)
- other family member (33)

Others included elected members, foster carers, voluntary organisation and teachers.

## Enghreifftiau o waith

### Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

Cysylltodd rhiant â'r Swyddfa ynghylch ei merch 14 oed oedd heb fod i'r ysgol ers 6 mis. Un bore roedd y ferch wedi gwrthod mynd i'r ysgol nac i unrhyw lleoliad addysg arall. Roedd yr awdurdod addysg lleol yn ymwneud â'r achos, ac roedd y swyddog lles addysg wedi ysgrifennu at y rhiant yn rhybuddio y gallai erlyniad ddilyn pe na bai'r person ifanc yn dychwelyd i'r ysgol.

Roedd y rhiant wedi cyrraedd pen ei thennyn, ac roedd wedi cysylltu â'r gwasanaeth cyngor a chefnogaeth oherwydd nad oedd ganddi syniad beth i'w wneud. Roedd yr awdurdod lleol wedi ceisio dod i gysylltiad â'r person ifanc, ond heb lwyddiant. Roedd y ferch wedi gwrthod mynd i gyfarfodydd i drafod y sefyllfa oherwydd bod yr holl gyfarfodydd yn cael eu trefnu ar safle'r ysgol. Pan ofynnodd ei rhiant pam nad oedd hi'n fodlon mynd i'r cyfarfodydd, aeth y person ifanc yn ddiog dros ben. Doedd dim eiriolwr gan y ferch.

Galwodd un o'r Swyddogion Ymchwilio a Chyngor yr awdurdod addysg lleol ac awgrymu cael hyd i leoliad niwtral er mwyn i'r person ifanc ddod i'r cyfarfod. Wedi hynny ffonwyd y rhiant a chael cadarnhad fod yr awdurdod wedi nodi lleoliad, ond eto bod y ferch yn ddiog ac wedi gwrthod mynd i'r cyfarfod, gan ddweud wrth ei rhiant y dylai hi wybod pam. Rhoddwyd cyngor i'r rhieni hefyd ynghylch sut gellid gofyn i'w merch roi ei barn ar bapur, fel bod y gweithwyr profesiynol yn gallu gwrandao.

Wythnos yn ddiweddarach ffoniodd y rhiant i ddiolch i'r Swyddfa am y cyngor. Roedden nhw wedi dilyn y cyngor hwnnw, ac roedd eu merch wedi ysgrifennu'n helaeth, yn egluro ei bod yn ofni mynd i'r ysgol, ac yn nodi sut roedd hi'n teimlo y gallai gael ei helpu i ddychwelyd i addysg. Gwrandawodd yr awdurdod ar y pethau roedd y ferch yn eu dweud wrthyn nhw, ac ymhen pythefnos roedd y person ifanc yn ôl ym myd addysg, ac yn fodlon ar ei lleoliad.

### Amddiffyn plant

Ffoniodd rhiant y Swyddfa oherwydd bod ei merch wedi gwneud honiad ynghylch aelod o'r staff addysgu yn ei hysgol, ac roedd hi bellach yn cael trafferth mynd i'r ysgol. Doedd y rhiant ddim yn siŵr sut i ddatrys y sefyllfa.

Rhoddodd y Swyddog Ymchwilio a Chyngor gyngor i'r rhiant ynghylch canllawiau Llywodraeth Cymru i ysgolion o ran sut dylen nhw ymateb i honiadau yn erbyn aelod o staff yng nghyswllt honiadau amddiffyn plant. Dangosodd trafodaeth gyda'r rhiant nad oedd yr ysgol wedi cydymffurfio'n llawn â'r gweithdrefnau priodol. Cysylltodd y Swyddfa â'r awdurdod addysg lleol, a chael nad oeddent wedi derbyn yr holl wybodaeth ynghylch yr honiadau roedd y ferch yn eu gwneud.

Yn dilyn ymyrraeth y Swyddfa, cymerodd yr awdurdod gamau priodol ynghylch yr honiad drwy wneud cyfeireb at wasanaeth ymchwiliadau annibynnol Llywodraeth Cymru SERVOCA. Cynhaliwyd trafodaethau pellach rhwng y swyddfa a'r awdurdod lleol ynghylch y materion a amlygwyd yn ystod yr achos. O ganlyniad, newidiodd yr awdurdod lleol ei hyfforddiant diogelu ym myd addysg i helpu i atal achos arall tebyg.

### Cwswela mewn ysgolion

Cysylltodd athro mewn ysgol annibynnol â ni, gan fod angen rhywun i siarad ag un o'i ddisgyblion a oedd wedi bod yn niweidio'i hun, ac roedd yr athro am gael cyngor ynghylch y ffordd orau o ddelio â'r sefyllfa. Nid oedd gan yr ysgol wasanaeth cwswela yn yr ysgol na chefnogaeth annibynnol debyg ar gyfer y disgyblion. Nid oedd y disgybl am i unrhyw wasanaeth statudol ymwneud â'r achos.

Yn dilyn trafodaeth rhwng un o Swyddogion Ymchwilio a Chyngor y Swyddfa, cyfarfu'r athro a'r Swyddog â'r disgybl i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r materion dan sylw.

Cyfaddefodd y person ifanc fod rhai materion yr hoffai eu trafod gyda chwswelydd, ond nad oedd y gwasanaeth hwnnw ar gael yn yr ysgol. Doedden nhw ddim eisiau mynd trwy eu meddyg oherwydd eu bod nhw'n poeni y byddai eu rhieni yn clywed am y peth. Roedden nhw am gael mynediad i wasanaeth cyfrinachol.

Roedd y Swyddog Ymchwilio a Chyngor mewn sefyllfa i nodi darparwr cwswela lleol, a thrafod cefnogaeth ar gyfer y person ifanc. Fe wnaeth fîm polisi wedyn fynd ati i edrych ar y diffyg cwswela ar gyfer plant mewn ysgolion preifat fel mater polisi ehangach.

Glynodd y Swyddog at weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ar hyd yr amser, a byddai wedi cyfeirio'r mater at y Gwasanaethau Cymdeithasol petasai hynny'n briodol.

### Plentyn oedd yn derbyn gofal ac addysg

Galwodd gofalwr maeth ynghylch plentyn oedd wedi ei leoli gyda nhw oedd heb fod mewn addysg ers chwe mis. Roedd y gofalwr maeth yn darparu lleoliad y tu allan i'r sir. Roedd materion diogelu i'w hystyried yn ogystal, ac roedd dau awdurdod lleol yn dadlau ynghylch pwy ddylai dalu am y gefnogaeth ychwanegol roedd ei hangen ar y person ifanc.

Cysylltodd Swyddog Ymchwilio a Chyngor â'r ddau awdurdod lleol i gael rhagor o wybodaeth am y sefyllfa, gyda'r nod o geisio datrys y broblem. Fe sicraodd hefyd fod y person ifanc yn cael ei roi mewn cysylltiad ag eiriolwr, fel bod modd clywed beth oedd ei ddymuniadau a'i deimladau. Arweiniodd ymyrraeth y swyddfa at ddialog adeiladol rhwng y ddau awdurdod lleol, bu'n fodd i glywed llais y person ifanc, ac i ddylanwadu ar y penderfyniadau a wnaed. Mae'r person ifanc yn dal i dderbyn cefnogaeth yr eiriolwr, ac mae'n gwneud yn dda o dan y cynllun Llwybrau 14-19.

## Examples of work

### Special Educational Needs (SEN)

A parent contacted the Office about her 14 year old daughter who had not been in school for 6 months. One morning the girl had simply refused to go to school or any other educational setting. The local education authority was involved and the Education Welfare Officer had written to the parent warning of prosecution should the young person not return to school.

The parent was distraught and had contacted the advice and support service because they had no idea what to do. The local authority had tried to engage with the young person but to no avail. The girl had refused to attend meetings to discuss the situation because all meetings were arranged on school premises. When asked by her parent why she would not attend meetings the young person got extremely angry. The girl did not have an advocate.

One of the Investigation and Advice Officers called the local education authority and suggested that a neutral location be found in order for the young person to attend the meeting. A follow up call to the parent confirmed that the authority had identified a venue but again their daughter was angry and refused to attend the meeting telling her parent they should know why this was. Advice was also given to the parents on how to approach their daughter to get her views written down for the professionals to listen.

One week later the parent called to thank the Office for the advice. They had followed the advice and their daughter had written extensively to explain her fear of school and how she felt she could be helped back into education. The authority listened to what the girl was telling them and two weeks later the young person was back in education and happy with her placement.

Sometimes the involvement of the Office can provide a different perspective to the resolution of a local problem and is able to make a positive difference to the lives of children and young people.

### Child protection

A parent called the Office as an allegation had been made by her daughter in relation to a teaching member of staff at her school and the girl was now struggling to attend school. The parent was unsure how to resolve this situation.

The Investigation and Advice Officer advised the parent about Welsh Government's guidance to schools in relation to how they should respond to child protection allegations against a member of staff. Discussion with the parent indicated that the school had not fully followed procedures. The Office contacted the local education authority and it transpired that they were not in receipt of all the information in relation to the allegations the girl was making.

Following the intervention of the Office the authority took appropriate action in relation to the allegation and made a referral to Welsh Government's independent investigation service SERVOCA. Further discussions took place between the Office and the local authority about the issues highlighted during the case. As a result, the local authority amended its safeguarding in education training to prevent to help prevent a repeat of this case.

### School based counselling

Contact was made by a teacher from an independent school in relation to a pupil of theirs who needed someone to talk to as they had been self harming. The teacher wanted advice about how best to deal with this situation. The school did not have access to a school based counseling service or similar independent support for the pupil. The pupil did not want any statutory service involved.

Following discussion between an Investigation and Advice Officer, the teacher and the pupil met with the Officer to gain a better understanding of the pupils' issues.

The young person confided that they had issues that they wanted to discuss with a counsellor but did not have access to this service at their school. The young person did not want to pursue through their doctor as she was concerned her parents would find out. The young person wanted to have access to a confidential service.

The Investigation and Advice Officer was able to identify a local counselling provider and negotiate support for the young person. The issue regarding the lack of school based counselling support for children at privately maintained schools was then taken forward as a wider issue by the Office's policy function.

At all times the Officer was working to the All Wales Child Protection Procedures and would have made a referral to Social Services if that had been appropriate.

### Looked after child and education

A foster carer called in relation to a child they had placed with them who had not been in education for six months. The foster carer was providing an out of county placement. There were also safeguarding issues to be taken into account and two local authorities were in dispute as to who should fund the additional support the young person needed.

An Investigation and Advice Officer made contact with both local authorities to find out more information about what was going on with the aim of trying to resolve the problem. They also ensured that the young person was put in touch with an advocate enabling their wishes and feelings to be heard. The intervention of the Office led to a constructive dialogue between the two local authorities and enabled the voice of the young person to be heard, and to influence decisions that were made. The young person continues to be supported by the advocate and is doing well under the 14-19 Pathway scheme.

# Llywodraeth newydd, heriau newydd gan Keith Towler

New government,  
new challenges  
by Keith Towler



# “Rydym wedi dod yn bell yng Nghymru ac, er nad ydym wedi cyrraedd pen y daith eto, rwyf yn falch o’r pellter rydym wedi ei deithio.”

## Gwenda Thomas AC, Dirprwy Weinidog dros Blant a Phobl Ifanc yn ystod dadl ar Gynllun Hawliau’r Plant o dan Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

Rydym wedi clywed y term yn cael ei ddefnyddio’n rheolaidd mewn dadleuon corff llawn yn ystod y trydydd cynulliad, ac mae wedi bod yn elfen amlwg mewn darnau allweddol o ddeddfwriaeth yng nghyswllt plant a phobl ifanc.

Wrth i ni gychwyn ar bedwerydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gydag Aelodau Cynulliad newydd a Llywodraeth newydd, un her allweddol i mi fydd cadw’r ffocws a’r proffil gwleidyddol ar y materion y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu. Yn yr un modd, bydd carfan newydd o gynghorwyr lleol yn cael eu hethol ar draws awdurdodau lleol Cymru yn 2012, a byddaf yn ceisio codi proffil anghenion plant a phobl ifanc yng Nghymru gyda nhw, yn ogystal â’u hatgoffa o’u cyfrifoldebau allweddol fel rhieni corfforaethol. Mae cynghorwyr lleol yn y sefyllfa freintiedig o allu cynrychioli plant a phobl ifanc eu hardal, a chael effaith gadarnhaol ar eu bywydau. Bydd angen iddynt fedru ymgysylltu â phlant a phobl ifanc er mwyn canfod ac ymateb i’r anghenion hynny, a hefyd sicrhau trwy eu rolau craffu bod y gwasanaethau yn eu cymunedau yn cael eu darparu’n effeithiol. Gall fod gan gynghorwyr swyddogaeth bwysig o ran sicrhau bod y rhwymedigaethau statudol ar awdurdodau lleol a’r blaenoriaethau a nodwyd o ran polisi cenedlaethol yn cael eu rhoi ar waith yn briodol ar lawr gwlad.

Byddaf yn defnyddio’r bennod hon i amlygu rhai o’r datblygiadau arwyddocaol yng nghyswllt hawliau plant yng Nghymru rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012, gan ddechrau gyda rhaglen ddeddfwriaethol uchelgeisiol Llywodraeth Cymru.

### Y rhaglen ddeddfwriaethol

Mae rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn cynnwys darnau niferus o ddeddfwriaeth arfaethedig sy’n cael effaith uniongyrchol ar blant a phobl ifanc, ac a allai gynnal y broses o wireddu hawliau plant yng Nghymru a’i symud yn ei blaen. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)
- Bil Safonau Ysgolion (Cymru)
- Bil Strwythurau, Llywodraethu ac Anghenion Addysgol Arbennig (Cymru)
- Bil Atal Troseddau Ieuencid (Cymru)

- Bil Plant a Phobl Ifanc (Cymru), a fydd yn ceisio ehangu rôl Comisiynydd Plant Cymru ac adeiladu ar Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Bil Tai (Cymru)
- Bil Cam-drin Domestig (Cymru)
- Bil Rhoi Organau (Cymru)
- Bil Tyllu Cosmetig (Oed Cydsynio) (Cymru)

Fel pencampwr plant Cymru, byddaf yn mynd ati i ymgysylltu er mwyn sicrhau bod buddiannau plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried, a bod eu hawliau’n cael eu parchu wrth i ddeddfwriaeth symud yn ei blaen.

Efallai mai’r datblygiad mwyaf arwyddocaol eleni oedd pasio Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae wedi cael ei ddisgrifio’n gywir fel mesur ‘arloesol’, a bydd yn golygu bod rhaid i Weinidogion roi ‘sylw dyledus’ i CCUHP wrth ddatblygu’r agenda ddeddfwriaethol. Ar 27 Mawrth 2012 cymeradwywyd y Cynllun Hawliau Plant, o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae’r Cynllun Hawliau Plant hwn yn cyflwyno’r trefniadau a fydd gan Weinidogion Cymru er mwyn sicrhau eu bod hwy, a staff Llywodraeth Cymru, yn cydymffurfio â’r ddyletswydd a roddwyd arnynt gan y Mesur – i “roi sylw dyledus” i hawliau plant, wrth ddatblygu neu weithio ar ddeddfwriaeth newydd arfaethedig, polisiau newydd arfaethedig ac unrhyw adolygiad neu newid i bolisi sydd eisoes yn bodoli.

Fe wnes i ymateb i’r ymgynghoriad ar y cynllun, gan amlygu meysydd yr oeddwn i’n teimlo bod angen eu cryfhau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- pwysigrwydd natur annirprwyadwy CCUHP, a bod Gweinidogion yn derbyn cyfrifoldeb llawn am weithredu ‘dyletswydd sylw dyledus’ yn effeithiol, fel bod modd defnyddio’r ddeddfwriaeth yn gadarnhaol i wireddu hawliau plant yng Nghymru yn rhagweithiol;
- yr angen am ddeall yn glir natur a chwmpas egwyddor ‘sylw dyledus’;
- yr angen am gysylltu’r Cynllun yn benodol ac yn uniongyrchol â’r rhwymedigaethau ym Mesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011;
- yr angen am nodi trefniadau adrodd a monitro yn glir; ac
- edrych ymhellach ar y mecanweithiau sydd ar gael os na weithredir dyletswydd sylw dyledus.

# “We have come a long way in Wales and, while we have not quite reached our destination, I am proud of how far we have travelled.”

## Gwenda Thomas AM, Deputy Minister for Children and Social Services during the debate on the Children’s Rights Scheme under the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011

As we enter into the fourth National Assembly for Wales with new Assembly Members and a new government, a key challenge for me will be to maintain the focus and political profile on the issues facing children and young people.

In the same way, 2012 will see a new cohort of local councillors being elected across local authorities in Wales and I will be seeking to raise the profile of the needs of children and young people in Wales with them, as well as reminding them of their key responsibilities as corporate parents. Local councillors are in a privileged position of being able to represent and positively impact on the lives of children and young people in their locality. They will need to be able to engage with children and young people to identify and respond to those needs and also ensure that the services within their communities are being delivered effectively via their scrutiny roles. Councillors can play an important function in ensuring the statutory obligations on local authorities and the identified national policy priorities are being implemented as they should on the ground.

I will use this chapter to highlight some of the significant developments in relation to children’s rights in Wales between 1 April 2011 and 31 March 2012, starting with the Welsh Government’s ambitious legislative programme.

### Legislative programme

The legislative programme for Welsh Government includes numerous pieces of proposed legislation which directly impact on children and young people and could potentially uphold and progress the realisation of children’s rights in Wales. These include:

- Social Services (Wales) Bill
- Schools Standards (Wales) Bill
- The Structures, Governance and Special Educational Needs (Wales) Bill
- The Prevention of Youth Offending (Wales) Bill
- Children & Young Persons (Wales) Bill, which will aim to expand the role of the Children’s Commissioner for Wales and build on the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011
- The Housing (Wales) Bill

- The Domestic Abuse (Wales) Bill
- Organ Donation (Wales) Bill
- Cosmetic Piercing (Age of Consent) (Wales) Bill

As the children’s champion for Wales, I will be actively engaging to ensure that the interests of children and young people are considered and their rights respected as legislation is progressed.

What I think... Every child and young person has the right to an education. They have a right to have a say about the education they receive, the places they receive it, the way they are treated in educational settings and to have those views taken seriously.

### School standards and organisation

**Looking back**  
**Progress on International Student Assessments (PISA) and Behaviour**  
In my last annual report I welcomed the Education Minister's 20 point action plan in response to the Progress on International Student Assessments (2009) and the renewed focus on the National Behaviour and Attendance Action Plan. In February 2012, the Minister issued an update on progress against the 20 point action plan. In response I welcomed the provision of funding to train teachers in behavioural management techniques as a crucial development in supporting teachers in classroom management.

**School banding**  
Final data on the school banding of secondary schools was published by Welsh Government in December 2011. Whilst I am pleased that the measures used reflect the Minister's priorities for improvement, which include reducing the impact of deprivation, I remain concerned that 'few schools' are supporting disadvantaged learners well, as noted in Estyn's latest annual report. The report also details how schools are failing to share best practice or collaborate well with each other on the issue. Meanwhile, latest National Statistics on Academic Achievement and Entitlement to Free School Meals produced by Welsh Government and released in March 2012 indicated that performance of pupils eligible for free school meals is lower than their non-eligible counterparts 'at all key stages and in all performance measures'.

I understand that Welsh Government's School Standards Unit is working with education consortia to take forward improvement plans with each band 4 and 5 school.

**School Standards and Organisation (Wales) Bill**  
I have made it clear in my response to the consultation on the School Standards and Organisation (Wales) Bill that I wish to see regard for the rights of the child under the UNCRC added to the criteria for issuing a warning notice to a governing body of a school.

Last year I called on those involved in developing and implementing school organisation proposals to consider the rights of pupils as provided by the UNCRC, particularly in relation to the provision of information and the opportunity to have their voices heard on matters that affect them. I hope through this legislation that the statutory obligation to consult with learners will be effectively implemented and that we see good practice rolled out across Wales.

I am also concerned that changes to the arrangements and funding for free school breakfasts, school-based counselling and flexible charging for school meals under the Bill may impact on equity of access and the provision of non-stigmatising services for children and young people.

- Looking forward**
- I am calling on Welsh Government to take measures to ensure that children and young people are recognised as key stakeholders in relation to engagement in processes relating to school standards and organisation.
  - I am calling on Welsh Government to consider the requirements of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 in relation to the proposals included in the School Standards and Organisation Bill.
  - I am calling on local authorities and governing bodies to assess the potential impact in terms of poverty, equality and access to rights under new arrangements in relation to post-16 Special Educational Needs education, free school breakfasts, school-based counseling and flexible charging for school meals when making local decisions.

### Participation in education settings

What I think... Article 12 of the UNCRC states that every child has the right to say what they think in all matters affecting them and to have those rights taken seriously.

**Looking back**  
Participation in education settings has been the subject of regulation and guidance since 2005. The Welsh Government Pupil Participation Project is in place to support schools in enabling children and young people to have a voice and to participate in decisions that affect them, as set out in Article 12 of the UNCRC.

The School Effectiveness Framework states that 'children and young people's participation in wider aspects of learning needs to build on the work of school councils to secure real engagement in the learning process.' However Estyn's latest annual report (2010-11) suggests that progress is too slow in achieving this. It states that it does find that in the majority of primary schools pupils participate well in community activities but that in a minority of primary schools pupils play too small a role in making decisions about how and what they learn. In secondary schools pupils 'often' take part in community activities and in making decisions about various aspects of school life, such as improving the environment. However the report also identifies that there are only a 'few schools' where 'pupils involvement in the life and work of the school is especially strong and where they have a significant role in self-evaluation activities and in the process of developing school improvement plans'.

Welsh Government's 2011 survey on pupil engagement found that just under half of the pupils surveyed felt that everyone has a chance to have their opinions heard in school, nearly a third agreed that this sort of happens but a quarter said that they disagreed that everyone has a chance to have their opinions heard in school. The research concludes that whilst those pupils who responded to the survey were aware of their right to have their voices heard, and that although mechanisms exist for young people to have their say in decisions that affect them, there is a perception that this only has surface value and in reality no-one is listening to what they are saying. This finding hit me hard. Children and young people are still reporting they are not being heard.

I strongly believe that inherent to a commitment to children's rights is the need for a whole-school approach and to listening and responding to the voices of children and young people. It is central to tackling disengagement, to understanding the emotional and social development needs of pupils and in preparing young people to take on the responsibilities of adulthood. Improvements can be achieved that will contribute to the learning experience of children and young people and to school effectiveness.



### Nod 3: Mwynhau'r iechyd corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posib

#### Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)

Fy marn i... Rhaid i gynllunio a darparu cefnogaeth ar gyfer lles emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc gael ei yrru gan anghenion y plant a'r bobl ifanc hynny, yn hytrach na chael ei arwain gan ofynion systemau a gwasanaethau.

**Edrych yn ôl**  
Yn fy adroddiad blynyddol y llynedd fe wnes i groesawu Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, yr ymgyrchu dros ymyrraeth gynnar a chynllun gweithredu Chwalu'r Rhwystrau. Fodd bynnag, nodais hefyd bryderon parhaus ynghylch darparu cefnogaeth gyson a phriodol i blant a phobl ifanc â phob lefel o anghenion. Galwais am gadw'r gweithwyr iechyd meddwl sylfaenol, ac rwy'n falch bod y swyddi hynny'n ddiogel ar hyn o bryd.

Ddiwedd 2011, cyflwynodd Llywodraeth Cymru 'Göd Ymarfer Drafft ar gyfer Rhannau 2 a 3 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010'. Fe wnes i alw am gyfeiriad clir yn y Cöd Ymarfer at hawliau plant a phobl ifanc i leisio eu barn ar bob mater sy'n effeithio arnyhau ac i gael eu barn wedi eu cymryd o ddifri.

Daeth yr ymgyngoriad ar Orchymyn Iechyd Meddwl (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2012 i ben ym mis Mawrth 2012. Rwy'n nodi gyda phryder y diffyg blaenoriaeth a roddwyd yn yr ymgyngoriad i CCUHP a sut mae CAMHS yng Nghymru yn mabwysiadu'r egwyddorion a geir yn y Confensiwn. Ar sail cynnwys yr ymgyngoriad hwn bydd hawliau plant a phobl ifanc i dderbyn gwasanaethau iechyd meddwl effeithiol a phriodol yng Nghymru yn cael eu pennu yn ôl trothwyon a difrifoldeb yr angen. Mae iechyd meddwl a lles emosiynol yn ffactorau pwysig ym mywyddau plant a phobl ifanc ac mae ganddynt hawl i gael mynediad i ymyrraeth amserol, er mwyn sicrhau bod modd diogel eu hiechyd meddyliol a'u lles ac atal problemau rhag gwaethygu. Rydym yn gwybod na fydd angen cynllun nac unigolyn i gydlynu eu gofal ar bob plentyn a pherson ifanc sy'n ymwneud â CAMHS, ond mae atal plant a phobl ifanc nad ydynt ond yn derbyn gwasanaethau cynnal iechyd meddwl sylfaenol (Rhan 1 o'r Mesur) rhag cael mynediad i ddarpariaeth o'r fath oherwydd nad ydynt yn derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd (Rhan 2 o'r Mesur) yn mynd yn groes i agwedd seiliedig ar hawliau.

Rhaid i ni osgoi creu rhwystrau i wasanaethau, ac adlewyrchu dull o ddarparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar hawliau ac a arweinir gan anghenion. Eto, nid wyf yn credu bod drafft y Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) Cymru 2012 ar hyn o bryd yn adlewyrchu dull seiliedig ar hawliau, a bydd yn golygu bod rhaid i blant a phobl ifanc arddangos angen sylweddol cyn y darperir cynllun priodol a gwasanaeth priodol. Bydd hyn yn creu rhwystrau diangen i hawliau plant a phobl ifanc i dderbyn gwasanaethau iechyd meddwl effeithiol a phriodol yng Nghymru, ac yn ehangu'r bwch gweithredu yr wyf wedi tynnu sylw ato'n gyson.

- Edrych ymlaen**
- Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y canllawiau a'r rheoliadau sy'n deillio o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn adlewyrchu dull clir, seiliedig ar hawliau, yn unol â CCUHP.
  - Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y Strategaeth Iechyd Meddwl newydd i Gymru sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd yn adlewyrchiad cryf o ddull a seiliwyd ar CCUHP ac egwyddorion lles pennaf y plentyn.
  - Rwyf am fanteisio ar y cyfle hwn i nodi fy mwriad o graffu'n fanwl ar gynnydd CAMHS ledled Cymru yn ystod y flwyddyn sy'n dod. Byddaf yn casglu'r dystiolaeth a ddaw i'm swyddfa adeg gweithredu'r Mesur a'r canllawiau dilynol i weld a oes effaith weladwy ar brofiadau plant a phobl ifanc. Nid wyf yn barod i dderbyn rhwystrau parhaus i ddarparu cefnogaeth ddigonol i les emosiynol a iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru, rhywbeth y mae ganddynt hawl i'w dderbyn.

#### Cwrsela mewn ysgolion

Fy marn i... Dylai gwasanaethau cwrsela mewn ysgolion fod ar gael i bob plentyn a pherson ifanc pan fydd angen cefnogaeth o'r fath arnynt. Bydd sicrhau mynediad i wasanaethau megis cwrsela yn yr ysgol yn cynnal lles a mynediad i ystod o hawliau ar gyfer plant a phobl ifanc.

**Edrych yn ôl**  
Mae strategaeth genedlaethol ar gyfer cwrsela mewn ysgolion yng Nghymru bellach yn ei lle ers bron pedair blynedd, ac rwy'n croesawu'r ymrwymiad parhaus i'w gweithredu a'i chyflwyno ledled Cymru. Argymhellwyd y datblygiad hwn gyntaf yn Ymchwiliad Clywch, a arweinwyd gan ein Comisiynydd Plant cyntaf. Nod y strategaeth oedd sicrhau bod darpariaeth gwnsela ar gael i bob disgybl ysgol. Ymddengys bod Llywodraeth Cymru yn dal i dderbyn yn gyffredinol bod hyrwyddo iechyd a lles mewn ysgolion yn creu amgylcheddau dysgu effeithiol, gan gyfrannu'n aml at ymdrin â materion iechyd emosiynol a lles plant a phobl ifanc cyn gynted â phosib.

Fe wnaeth gwerthusiad o'r strategaeth, a gomisiynydd gan Lywodraeth Cymru, nodi fod holl grwpiau o randdeiliaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc oedd yn derbyn y gwasanaeth, yn credu fod gweithrediad y strategaeth yn llwyddiannus. Fodd bynnag, dangosodd y gwerthusiad fod rhai grwpiau, gan gynnwys rhai grwpiau BME a phlant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig yn cael eu tangynrychioli o ran y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n cyrchu'r ddarpariaeth. Rwyf hefyd yn pryderu bod y gwerthusiad yn awgrymu y gallai'r ddarpariaeth fod yn gyfyngedig yn achos plant a phobl ifanc sydd am gael cefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rwy'n pryderu bod y strategaeth yn nodi mai Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc (PPPlau) sy'n arwain y gwasanaethau cwrsela mewn ysgolion ar lefel leol. Rwy'n pryderu y gallai newidiadau lleol i strwythurau cynllunio a phartneriaeth olygu bod rhai PPPlau yn diflannu, ac y gallai hynny olygu risg o ran datblygu ac ehangu gwasanaethau. Rhaid diogelu'r rôl hollbwysig hon wrth i newidiadau ddigwydd yn y strwythurau.

Rhaid i'r canllawiau statudol arfaethedig ar gwnsela mewn ysgolion a gynigiwyd yn y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2011 fod yn eglur ynghylch ystyr 'darpariaeth resymol' a 'rhyw lefel o wasanaeth'. Mae'r termau hyn, fel y maent yn ymddangos yn y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) yn agored i ddehongliad lleol, a gallent arwain at fynediad anghyson i blant a phobl ifanc. Rwy'n falch bod y Bil yn cynnwys cynnig i greu dyletswydd yng nghyswllt 'pobl ifanc eraill 11-19 oed o ardal yr awdurdod lleol' a rhaid i'r ddyletswydd i gasglu data ynghylch deilliannau gynnwys monitro'r rhai sy'n cyrchu'r ddarpariaeth nad ydynt yn ddisgyblion cofrestrdig mewn ysgol uwchradd.

### Aim 3: Enjoy the best possible physical, mental, social and emotional health

#### Child and Adolescent Mental Health Services (CAMHS)

**What I think...**  
The planning and provision of support for the emotional and mental wellbeing of children and young people must be driven by the needs of those children and young people and not led by the demands of systems and services.

**Looking back**  
In my annual report last year I welcomed the Mental Health (Wales) Measure 2010, the drive for early intervention and the Breaking the Barriers action plan. However I also set out continuing concerns about provision of consistent and appropriate support to children and young people at all levels of need. I called for retention of primary mental health workers and I am pleased that these posts are currently secure.

At the end of 2011 Welsh Government issued 'Draft Code of Practice to Parts 2 and 3 of the Mental Health (Wales) Measure 2010'. I called for clear reference in the Code of Practice to the rights of children and young people to say what they think in all matters affecting them and to have those views taken seriously.

In March 2012 consultation on the Mental Health (Secondary Mental Health Services) (Wales) Order 2012 ended. I note with concern the lack of priority given within the consultation to the UNCRC and how CAMHS in Wales adopt the principles laid out within the Convention. The rights of children and young people to effective and appropriate mental health services in Wales, based on the content of this consultation, will be determined by thresholds and severity of need. Mental health and emotional wellbeing are significant factors in the lives of children and young people and it is their right to access timely intervention, to ensure that their mental health and wellbeing can be secured and problems do not deteriorate. We know that not all children and young people who access CAMHS will need a plan or an individual to co-ordinate their care, however, by disallowing children and young people who are only in receipt of primary mental health support services (Part 1 of the Measure) to access such provision because they are not receiving secondary mental health services (Part 2 of the Measure) goes against a rights-based approach.

We must avoid creating barriers to services and reflect both a rights-based and needs-led approach to service delivery. Again, I do not believe that the draft Mental Health (Secondary Mental Health Services) (Wales) Order 2012 currently reflects a rights-based approach and will result in children and young people having to demonstrate considerable need before an appropriate plan and service is provided. This will create unnecessary barriers to the rights of children and young people to effective and appropriate mental health services in Wales and increase the implementation gap that I have consistently highlighted.

#### Looking forward

- I am calling on Welsh Government to ensure that guidance and regulation resulting from the Mental Health (Wales) Measure 2010 reflects a clear rights-based approach in line with the UNCRC.
- I am calling on Welsh Government to ensure that the new Mental Health Strategy for Wales that is currently being developed strongly reflects an approach based on the UNCRC and the principles of the best interests of the child.

— I wish to take this opportunity to signal my intent to robustly scrutinise the progress of CAMHS across Wales over the coming year. I will be gathering the evidence that comes to my Office on the implementation of the Measure and subsequent guidance documents to ascertain if there is a tangible impact on the experiences of children and young people. I am not prepared to accept continued barriers to providing children and young people in Wales with adequate support for their emotional wellbeing and mental health as is their right.

#### School-based counselling

**What I think...**  
School-based counselling services should be available to all children and young people as and when they need such support. Ensuring access to services such as school-based counselling will support well-being and access to a range of rights for children and young people.

**Looking back**  
The national strategy for school-based counselling has now been in place for almost four years and I welcome the continued commitment to its implementation and delivery across Wales. This development was first recommended in the Clywch Inquiry, led by our first Children's Commissioner. The aim of the strategy was to ensure counselling provision was available to all school pupils. It appears to remain the case that the Welsh Government widely accepts that the promotion of health and wellbeing in schools creates effective learning environments and can often contribute to addressing the emotional health and wellbeing issues of children and young people as early as possible.

The Welsh Government commissioned evaluation of the strategy in 2010 reported that both the implementation of the strategy and service provision were generally viewed as successful across all stakeholder groups, including children and young people in receipt of such services. However the evaluation indicated that some groups including certain BME groups and children and young people with special educational needs are under-represented in terms of those children and young people accessing provision. I am also concerned that the evaluation suggested that provision may be limited for children and young people wishing to access support through the medium of the Welsh language.

I am concerned that the strategy identifies Children and Young People's Partnerships (CYPPs) as the strategic leads for local school-based counselling services and that local changes to planning and partnership structures may see some CYPPs disappearing which could pose a risk to the development and expansion of services. This vital role must be safeguarded whilst changes in structures are occurring.

Planned statutory guidance on school based-counselling proposed within the School Standards and Organisation (Wales) Bill 2011 must be clear on what is meant by 'reasonable provision' and 'some level of service'. These terms as they appear in the School Standards and Organisation (Wales) Bill are open to local interpretation and may lead to inconsistent access for children and young people. I am pleased that the Bill includes a proposed duty in relation to 'other young people aged 11-19 who belong to the local authority's area' and the duty to gather outcome data must include monitoring of those accessing provision who are not registered pupils of a secondary school.





## Plant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal

Fy marn i...

**Mae gan blant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal neu sy’n gadael gofal hawl i dderbyn yr un lefel o gefnogaeth ag a roddir gan unrhyw riant i’w plentyn wrth iddyn nhw dyfu i fyny a datblygu’n oedolion.**

**Edrych yn ôl**

Wrth gynhyrchu’r cyhoeddiad ‘Ar Goll ar ôl Gofal’ a’r adnodd ar gyfer pobl ifanc, ‘Fy Nghynllunyydd’, cynhaliodd fy Swyddfa ymchwil gyda bron 120 o blant a phobl ifanc oedd mewn gofal maeth, gofal preswyl, neu a oedd wedi gadael gofal. Y nod oedd archwilio’r materion mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth ddechrau cynllunio ar gyfer byw’n annibynnol a chanfod tystiolaeth o arfer da. Roedd yr ymchwil yn awgrymu nad yw plant sy’n derbyn gofal a phobl ifanc sy’n gadael gofal yn aml yn ymwylbodol o’u hawliau a’r pethau y dylent eu cael, ac nad ydynt o bosib yn derbyn y gefnogaeth y mae ganddynt hawl iddi wrth symud ymlaen i fyw’n annibynnol. Rhaid i’r sefyllfa hon newid, a darparodd ‘Ar Goll ar ôl Gofal’ 29 o welliannau arfer a gyfeiriwyd at Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru.

Nodais â diddordeb Fil preifart yr aelodau a gyflwynodd gnigion ar gyfer deddfwriaeth newydd ynghylch terfynu gofal yn fwy graddol, a’i deilwra at anghenion y person ifanc, nes eu bod yn 25 oed. Mae’r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cael hyd i dystiolaeth o dueddiad parhaus i bobl ifanc fyw gartref gyda’u rhieni ymhell i’w hugeiniau ac wedi hynny. Fodd bynnag, mae disgwyl i lawer o’r bobl ifanc y mae gan y wladwriaeth gyfrifoldeb rhiant amdanynt fyw’n annibynnol heb gefnogaeth ddigonol yn llawer ifancach na’u cymheiriaid. Yn achos y bobl ifanc hyn sydd wedi bod yn derbyn gofal, ac sydd wedi penderfynu peidio â pharhau â’u haddysg, rwy’n credu bod y gefnogaeth yn cael ei therfynu’n rhy gynnar wrth iddynt ddatblygu’n oedolion.

Bu’r deilliannau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal yn destun pryder i’m swyddfa ac i Lywodraeth Cymru ers peth amser. Rwy’n pryderu bod adroddiad blynyddol diweddaraf Prif Arolygydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi nodi mai 60% yn unig o’r plant a’r bobl ifanc sy’n derbyn gofal oedd yn cael eu cynnal gan gynlluniau addysg personol amserol yn 2010-11. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ‘Reoliadau Deddf Plant 1989 (Bwrsari Addysg Uwch) (Cymru) ar gyfer plant a fu gynt yn berthnasol (rhai sy’n gadael gofal)’ yn 2011. Mae’r rhain yn darparu ar gyfer bwrsariau addysg uwch yn fodd i sicrhau dilyniant yn y gefnogaeth i’r rhai sy’n gadael gofal, sef y cyntaf i dderbyn cyllid RHAGORI, dderbyn cymorth ariannol yn ôl eu cynllun llwybr. Mae hwn yn gam pwysig i ddileu rhai o’r rhwystrau sy’n wynebu pobl ifanc a fu’n derbyn gofal ac sydd am fynd ymlaen i addysg uwch, ac mae rhaid i’r ymdrechion barhau i sicrhau dewis addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal.

**Edrych ymlaen**

— **Rwy’n galw ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru i weithredu’r blaenoriaethau ar gyfer gwella gwasanaethau a gyflwynwyd yn fy adroddiad ‘Ar Goll ar ôl Gofal’.** Byddaf yn gofyn am adborth ysgrifenedig gan y rhai sydd â dyletswydd a rhanddeiliaid yng nghyswllt gweithredu’r blaenoriaethau hyn ar gyfer gwella gwasanaethau.

— **Rwy’n galw ar Lywodraeth Cymru i dderbyn egwyddor yr angen am derfynu gofal yn fwy graddol a’i deilwra i anghenion y person ifanc hyd at 25 oed.**

— **Rwy’n galw ar awdurdodau lleol i weithredu er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sy’n derbyn gofal yn cael eu cefnogi gan gynlluniau addysg personol amserol.**

— **O ganlyniad i adborth gan bobl ifanc a fu’n helpu i ddatblygu ‘Fy Nghynllunyydd’, byddaf yn trefnu cyfarfod cenedlaethol o blant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal a rhai sy’n gadael gofal, fel bod modd iddynt ddod at ei gilydd a chwrrd â phobl ifanc eraill sydd yn yr un sefyllfaoedd.**

## Gofalwyr ifanc

Fy marn i...

**Rhaid i ni ymateb i anghenion unigryw gofalwyr ifanc a gwrando ar yr hyn mae gofalwyr ifanc yn dweud bod ei angen arnyn nhw, fel eu bod yn cael mynediad i’w hawliau a’r plentyndod maen nhw’n ei haeddu.**

**Edrych yn ôl**

Yn 2010 fe nodais fy mwriad i fonitro datblygiad canllawiau a rheoliadau o dan Fesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru) ac i sicrhau bod anghenion unigryw gofalwyr ifanc yn cael eu hadlewyrchu’n ddigonol. Rwyf yn siomedig felly nad yw ‘Canllawiau Mesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru) 2010’, a gyflwynwyd i Fyrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol ym mis Ionawr 2012 yn ymateb yn llawn i’r materion a amlygwyd gennyf yn adroddiad blynyddol y llynedd. Ar hyn o bryd byddai’n gymharol syml darllen y canllawiau heb deall yn llawn sut maent yn berthnasol i ofalwyr ifanc.

Yn y canllawiau cyfeirir at yr angen am ystyried asesu gofalwr ifanc fel plentyn mewn angen o dan Ddeddf Plant 1989, ond ni roddwyd digon o amlygrwydd i hynny. Rwy’n croesawu cynnwys rheidrwydd i strategaethau lleol gynnwys pennod ar anghenion gofalwyr ifanc. Fodd bynnag, rwy’n pryderu, er bod CCUHP a Mesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 wedi eu cynnwys mewn atodiad, na cheir unrhyw gyfeiriad at y fframweithiau hyn yng nghorff y ddogfen. Rwy’n croesawu’n fawr y gosodiad bod gofalwyr ifanc yn cael eu cydnabod fel grŵp unigryw ag anghenion penodol, ond eu bod yn cael eu cydnabod yn anad dim fel plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, nid wyf yn credu bod yr egwyddor hon yn cael ei hadlewyrchu’n ddigonol yn y canllawiau.

**Edrych ymlaen**

— **Rwy’n galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn ystyried, wrth asesu a yw strategaethau gofalwyr lleol yn addas at y diben, i ba raddau mae pob strategaeth yn cydnabod gofalwyr ifanc fel grŵp unigryw ag anghenion penodol, yn mabwysiadu fframwaith CCUHP, ac yn cynnwys mesurau clir ar gyfer asesu anghenion y plentyn.**

— **Rwy’n galw ar Lywodraeth Cymru i nodi sut gellir defnyddio’r Fframwaith Cymhwysedd Cenedlaethol a’r Côd Ymarfer sy’n cael eu cyflwyno o dan y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) yn offeryn i sicrhau bod asesiad o angen ar gael i bob gofalwr ifanc.**

— **Rwy’n galw ar fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol i ystyried gofalwyr ifanc fel gr p unigryw ag anghenion penodol, i fabwysiadu fframwaith CCUHP yng nghyswllt gofalwyr ifanc ac i feddu ar brosesau clir ar gyfer asesu anghenion gofalwyr ifanc ar sail lles pennaf y plentyn.**

— **Rwy’n galw ar fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i ystyried y galwadau a gynhwyswyd yn fy adroddiad ‘Bywyd Llawn Gofal’ (2009) wrth ddatblygu ac asesu digonolrwydd mesurau a geir mewn strategaethau lleol i ymateb i anghenion gofalwyr ifanc.**

>>>

## Looked after children and young people

What I think...

**Children and young people who are looked after or who are leaving care have the right to the same level of support that any parent gives to their child as they grow up and head towards adulthood.**

**Looking back**

In producing the publication ‘Lost After Care’ and the resource for young people, ‘My Planner’, my Office undertook research with nearly 120 children and young people who were in foster care, residential care or who had left care. The aim was to explore the issues that young people face when they start planning to live independently and to identify evidence of good practice. The research suggested that looked after children and young people leaving care are often not aware of their rights and entitlements and may not get the support they are entitled to as they move on to independent living. This situation has to change and ‘Lost After Care’ provided 29 practice improvements directed at Welsh Government and local authorities in Wales.

I noted with interest the private members Bill that made proposals for new legislation on care being phased out more slowly, tailored to the young person’s needs, until up to the age of 25. The Office for National Statistics has evidenced a continued trend in young people living at home with their parents well into their twenties and beyond. However many of the young people that the state has parental responsibility for are expected to live independently without adequate support at a much earlier age than their peers. For these young people who have been looked after and have decided not to continue with their education, I believe support is being withdrawn too early in their transition to adulthood.

Educational outcomes for looked after children and young people have been an area of concern for my office and for Welsh Government for some time. I am concerned that the latest annual report of the Chief Inspector of the Care and Social Services Inspectorate Wales reported that only 60% of looked after children and young people were supported by timely personal educational plans in 2010-11. The Welsh Government introduced ‘Children Act 1989 (Higher Education Bursary) (Wales) for former relevant children (care leavers) Regulations’ in 2011. These provide for higher education bursaries as a mechanism for the continuity of support of care leavers, who were the first recipients of RAISE funding, to receive financial support according to their pathway plan. This is an important step in removing some of the barriers facing young people who have been looked after and who wish to continue into higher education and efforts to secure educational choice for looked after children and young people must continue.

**Looking forward**

— **I am calling on Welsh Government and local authorities in Wales to implement the priorities for service improvement set out in my ‘Lost After Care’ report. I will be seeking written feedback from duty bearers and stakeholders in relation to the implementation of these priorities for service improvement.**

— **I am calling on Welsh Government to accept the principle of the need for care to be phased out more slowly and tailored to the young person’s needs up to the age of 25.**

— **I am calling on local authorities to take action to ensure all looked after children and young people are supported by timely personal education plans.**

— **As a result of feedback from young people who helped develop ‘My Planner’, I will be organising a national meeting of looked after children and young people and care leavers so that they can come together and meet other young people in the same situations as them.**

## Young carers

What I think...

**We must respond to the distinct needs of young carers and we must listen to what young carers say they need so that they get access to their rights and the childhood they deserve.**

**Looking back**

In 2010 I stated my intention to monitor the development of guidance and regulation under the Carer’s Strategies (Wales) Measure and to ensure the distinct needs of young carers were adequately reflected. I am therefore disappointed that the ‘Carers Strategies (Wales) Measure 2010 Guidance’ issued to Local Health Boards and Local Authorities’ in January 2012 does not fully respond to the issues I highlighted in last year’s annual report. As it stands it would be relatively easy to read the guidance without fully understanding its application to young carers.

Within the guidance there is reference to the need to consider an assessment of a young carer as a child in need under the 1989 Children Act but this has not been given sufficient prominence. I welcome the inclusion of a requirement for local strategies to include a chapter on the needs of young carers. I am however concerned that although the UNCRC and Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 are included in an annex any reference to these frameworks is absent from the main document. I very much welcome the statement ‘that young carers are recognised as a distinct group with specific needs, but are recognised first and foremost as children and young people’. However I do not believe that this principle is adequately reflected within the guidance.

**Looking forward**

— **I am calling on Welsh Government to ensure that in assessing whether local carers strategies are fit for purpose they consider how far each strategy recognises young carers as a distinct group with specific needs, adopts a UNCRC framework and has clear measures for an assessment of needs of the child.**

— **I am calling on Welsh Government to identify the means through which the National Eligibility Framework and Code of Practice being introduced under the Social Services (Wales) Bill can be used as a vehicle to ensure that an assessment of need is available to all young carers.**

— **I am calling on local health boards and local authorities to consider young carers as a distinct group with specific needs, to adopt a UNCRC framework in relation to young carers and to have clear processes for the assessment of young carers needs on the basis of the best interests of the child.**

— **I am calling on local health boards and local authorities and Welsh Government to consider the calls included in my ‘Full of Care’ report (2009) in developing and assessing the adequacy of measures in local strategies to address the needs of young carers.**

>>>

## Adolygu gofal seibiant yng Nghymru

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar yr adolygiad o ofal seibiant yng Nghymru yn 2011. Roeddwn yn falch o weld bod cwmpas yr adolygiad yn cynnwys gofalwyr ifanc a darparu seibiant ar gyfer gofalwyr plant a phobl ifanc anabl. Gofynnais am i ganllawiau yn y dyfodol gynnwys adran yn benodol ar gyfer gofalwyr ifanc a gofalwyr plant a phobl ifanc anabl.

Mae Canllawiau dilynol Mesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru) 2010 yn cyflwyno meysydd gwybodaeth a chymorth, gan gynnwys gofal seibiant ac egwyliau byr, y dylid eu hystyried a’u darparu i ofalwyr fel sy’n briodol, gan sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i’w hoedran, eu gofynion iaith, eu gofynion diwylliannol, anabledd ac unrhyw angen penodol arall.

Mae gennyf bryderon parhaus bod dealltwriaeth ddigonol o anghenion gofalwyr ifanc yn dal heb ei sicrhau, ac felly na fydd y cyllid na’r gwasanaeth a ddarperir yn cyrraedd yr hyn sy’n angenrheidiol yn fy marn i, a hynny o bell ffordd. Mae anghenion gofalwyr ifanc a’r datrysiadau seibiant gorau ar eu cyfer yn ddramatig o wahanol i eiddo mwyafrif y gofalwyr, sydd ar y cyfan yn bobl hŷn. Mae angen ymdrin â’r plant a’r bobl ifanc hyn mewn modd arbenigol, na fydd o reidrwydd yn cynnwys gofal preswyl na darpariaeth dros nos. Yn hytrach, mae’r plant a’r bobl ifanc a gyfrannodd at fy adroddiad ‘Bywyd Llawn Gofal’ yn galw am fwy o gyfleoedd i gyrchu’r gefnogaeth sydd ar gael trwy brosiectau gofalwr ifanc a mynediad mwy hwylus, gyda chymhorthdal sylweddol, i gyfleusterau hamdden a chludiant, fel eu bod yn gallu cael cyfleoedd i fwynhau eu plentynod, a rhyddid o gyfrifoldebau gofal.

## Egwyliau i ofalwyr plant a phobl ifanc anabl

Daeth ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ‘Egwyliau i Ofalwyr Plant Anabl’ i ben ym mis Mawrth 2012. Yn amlwg mae gan egwyliau byr ar gyfer gofalwyr plant a phobl ifanc anabl swyddogaeth ddeuol, sef darparu egwyl a chyfnod o seibiant ar gyfer y gofalwyr, ac ar yr un pryd roi cyfle i’r plentyn neu’r person ifanc anabl fod yn rhan o weithgareddau cymdeithasol a hamdden. Gall hyn hybu annibyniaeth, galluogi cyfranogiad mewn gweithgareddau cymunedol, a darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer chwarae a hamdden. Rwyf wedi galw am ffocws cliriach ar anghenion y plentyn, ochr yn ochr ag anghenion y gofalwyr. Rwyf hefyd wedi gofyn am gynnwys mesurau i gynnal llais y plentyn wrth asesu, cynllunio a dylunio anghenion gwasanaethau oddi mewn i’r canllawiau. Rwy’n gobeithio gweld y newidiadau hyn yn cael eu cynnwys yn y drafft terfynol, a byddaf yn cyflwyno sylwadau pellach i Lywodraeth Cymru er mwyn rhoi pwysau arnynt a’u gorfodi i ymdrin â’r materion hyn yn ‘Egwyliau i Ofalwyr Plant Anabl’.

Deallaf y dylai elfen bwysig, ond nid neilltuedig, o gefnogaeth i blant anabl a’u teuluoedd eistedd oddi fewn Teuluoedd yn Gyntaf. Nodaf fod adolygiad Arloeswyr Teuluoedd yn Gyntaf, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a’i gyhoeddi ym mis Ionawr 2012, yn cynnwys cyfeiriadau prin iawn at gymorth penodol ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a’u teuluoedd.

#### Edrych ymlaen

— **Byddaf yn asesu effeithiolrwydd darpariaeth y gefnogaeth ar gyfer plant anabl a’u teulouedd.**

## Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a’r Gwasanaethau Mamolaeth

Lansiwyd y FfGC ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a’r Gwasanaethau Mamolaeth yn 2005, ac mae’n cyflwyno safonau pwysig o ran y ddarpariaeth o gymorth a gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae’r FfGC yn cyflwyno safonau ar gyfer plant a phobl ifanc â phroblemau ac anhwylderau iechyd meddwl, plant a phobl ifanc anabl, plant a phobl ifanc mewn amgylchiadau arbennig, a phlant a phobl ifanc sy’n dioddef salwch aciwt a chronig neu anaf. Amlygodd yr adroddiadau blynyddol a gynhyrchwyd gan y Swyddfa hon yn 2005 a 2006 bryderon ynghylch gweithredu’r FfGC. Rwy’n ymwybodol bod adolygiad o’r FfGC wedi ei gychwyn yn 2008 ac rwy’n deall bod proses o adolygu ac ‘adnewyddu’r FfGC wedi bod ar waith, er nad yw manylion y broses hon yn glir.

Mae nifer o’r materion a ddeuwyd at fy sylw yn ddiweddar yn ymwneud yn uniongyrchol â diffyg darpariaeth mewn meysydd sy’n rhan o safonau’r FfGC. Rwy’n ymwybodol bod adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl ac emosiynol, a gyhoeddwyd yn 2009, wedi argymhell rhoi mesurau ar waith i graffu ar berfformiad, gan gwmpasu holl ystod y materion perthnasol a gynhwyswyd yn y FfGC, a bod y canlyniadau hynny’n cael eu rhoi ar led. Mae fy swyddogion wedi cwrrd â rhieni o Grŵp Rhieni/Gofalwyr Anhwylder Sbectrwm Awtistig mewn un awdurdod lleol, sydd wedi cael ar ddeall y bydd protocol pontio, y bu mawr ddisgwyl amdano, yn unol â safonau’r FfGC, wedi ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2012, saith mlynedd wedi cyhoeddi’r FfGC ar gyfer plant, pobl ifanc a’r gwasanaethau mamolaeth.

#### Edrych ymlaen

— **Fy mwriad i yw gofyn i Lywodraeth Cymru roi diweddariad i mi ar statws cyfredol y FfGC ar gyfer plant, pobl ifanc a’r gwasanaethau mamolaeth, gan ddarparu gwybodaeth i mi ynghylch y mesurau sydd yn eu lle i graffu ar weithredu ar lefel leol.**

## Cadeiriau olwyn

Yn fy adroddiad y llynedd fe nodais fy mod yn fodlon ar ganlyniadau Cam 2 o Adolygiad Cymru Gyfan ar Ystum Corff a Symudedd, ac fe groesawais ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau i ddefnyddwyr cadair olwyn. Gelwais ar Lywodraeth Cymru i fonitro effaith y cyllido hwnnw ar brofiadau’r plant a’r bobl ifanc y mae angen cyfarpar o’r fath arnynt.

#### Edrych ymlaen

— **Byddaf yn gofyn i Lywodraeth Cymru roi diweddariad i mi ar y cynnydd o ran cyflawni’r cyfryw ymarferiad monitro. Elfen bwysig o hyn fydd asesu cynllun strategol a’r model gynaliadwy i sicrhau parhad mewn unrhyw gynnydd.**

## Gofal iechyd parhaus

Y llynedd lleisiais bryderon ynghylch oedi hir wrth gynhyrchu canllawiau i blant a phobl ifanc ar ofal iechyd parhaus. Rwy’n croesawu cyhoeddi canllawiau drafft ar gyfer ymgynghori, a chydnabyddiaeth glir a phendant na ellir diwallu anghenion plant a phobl ifanc gan offeryn canllawiau ac asesu sydd wedi ei seilio ar oedolion.

Mae fy swyddfa wedi cael ar ddeall gan weithwyr proffesiynol mewn byrddau iechyd lleol eu bod wedi bod yn disgwyl am y canllawiau hyn er mwyn darparu model terfynol, clir o’r gwaith i gynnal dealltwriaeth gyffredin o ofal parhaus ar draws byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol. Nid wyf yn teimlo y bydd y canllawiau hyn yn eu ffurf bresennol yn cyflawni’r disgwyliad hwn yn llawn.

## Review of respite care in Wales

Welsh Government consulted on the review of respite care in Wales in 2011. I was pleased to see that the scope of the review did include young carers and the provision of respite to the carers of disabled children and young people. I asked for future guidance to include a section specifically for young carers and carers of disabled children and young people.

The subsequent Carers Strategies (Wales) Measure 2010 Guidance sets out areas of information and support including respite care and short breaks, that should be considered and provided to carers as appropriate, making sure that full account is taken of their age, language requirements, cultural requirements, disability and any other specific need.

I do have ongoing concerns that there is still not an adequate understanding of the needs of young carers and that therefore funding and service provision will fall far short of what I believe is necessary. The needs of young carers and the best respite solutions for them are dramatically different to those of the majority of carers who are generally older people themselves. These children and young people need a specialised approach which will not necessarily involve residential care or overnight provision. Rather, the children and young people who contributed to my ‘Full of Care’ report are calling for increased opportunities to access the support available through young carers projects and easier and highly subsidised access to leisure and transport facilities in order to enable them to have opportunities to enjoy their childhood with freedom from the responsibilities of caring.

## Breaks for carers of disabled children and young people

The Welsh Government consultation on ‘Breaks for Carers of Disabled Children’ ended in March 2012. Short breaks for carers of disabled children and young people clearly have a dual function of providing a break and respite for the carers whilst also giving the disabled child or young person an opportunity to engage in social and leisure activities. This can promote independence, enable participation in community activities and give increased opportunities for play and leisure. I have called for a clearer focus on the child’s needs alongside those of the carers. I have also asked for inclusion of measures to support the child’s voice in the assessment, planning and design of services needs within the guidance. I hope to see these changes included in the final draft and I will be making further representations to Welsh Government to press that these issues must be addressed in ‘Breaks for Carers of Disabled Children’.

I understand that an important, but not exclusive, element of support for disabled children and their families should sit within Families First. I note that the review of Families First Pioneers commissioned by Welsh Government and published in January 2012 contains very little reference to specific support for disabled children and young people and their families.

#### Looking forward

— **I will be assessing how support services for disabled children and their families are delivered locally.**

## National Service Framework (NSF) for Children, Young People and Maternity Services

The NSF for Children, Young People and Maternity Services was launched in 2005 and sets out important standards in support and service provision for children and young people in Wales. The NSF sets out standards for children and young people with mental health problems and disorders, disabled children and young people, children and young people in special circumstances and children and young people with acute and chronic illness to injury. The annual reports produced by this Office in 2005 and 2006 highlighted concerns about the implementation of the NSF. I am aware that a review of the NSF was initiated in 2008 and I understand that a review and ‘refresh’ of the NSF has been underway, although the details of this process are not clear.

A number of issues that have been brought to my attention recently relate directly to a lack of provision in areas covered by NSF standards. I am aware that the Wales Audit Office review of services for children and young people with emotional and mental health needs published in 2009 recommended that measures be put in place for the scrutiny of performance covering the full range of relevant issues included in the NSF and that these results be made widely available. My officers have met with parents from an Autistic Spectrum Disorder Parent/Carer Group in one local authority who have been told that a long-awaited transition protocol in line with NSF standards will be completed in December 2012, seven years after the publication of the NSF for children, young people and maternity services.

#### Looking forward

— **I am requesting that Welsh Government provide me with an update on the current status of the NSF for children, young people and maternity services and provide me with information on the measures in place to scrutinise implementation at a local level.**

## Wheelchairs

In my annual report last year I stated that I was content with the outcomes of Phase 2 of the All Wales Posture and Mobility Review and I welcomed the provision of additional funding for wheelchair services. I called on Welsh Government to monitor the effect of that funding on the experiences of children and young people who require such equipment.

#### Looking forward

— **I am asking Welsh Government to provide me with an update on progress in carrying out such a monitoring exercise. An important element of this will be to assess the strategic approach and sustainable model in order to maintain pace of progress.**

## Continuing health care

Last year I raised concerns about a long delay in the production of children and young people’s guidance on continuing health care. I welcome the publication of draft guidance for consultation and the clear and definite acknowledgement that children and young people’s needs cannot be met by an adult based guidance and assessment tool.

My office has been told by professionals within local health boards that they have been waiting for this guidance to provide a definitive and clear model of working to support a common understanding of continuing care across local health boards and local authorities. I do not feel that this guidance in its current form will fully meet this expectation.

I do welcome the fact that this document clearly and categorically states the importance of a child rights approach under the UNCRC and that there is a constant and repeated theme that the voice of the child should be heard and that the child’s needs and views are at the centre of the process.

Rwyf yn croesawu’r ffaith bod y ddogfen hon yn nodi’n glir ac yn ddiamheuol bwysigrwydd agwedd a seiliwyd ar hawliau plant o dan CCUHP. Dwi hefyd yn falch fod thema gyson a ailadroddir y dylid clywed llais y plentyn ac mai anghenion a barn y plentyn sy’n ganolog i’r broses. Fodd bynnag, mae angen mwy o gyfarwyddyd ar weithdrefnau cwynion yn y canllawiau. Rwy’n disgwyl drafft terfynol y canllawiau, ac rwy’n gobeithio y bydd yn ymdrin â rhai o’r pryderon yr wyf wedi eu hamlinellu yma ac yn fy ymateb i’r ymgynghoriad.

Daeth yr ymgynghori ar y canllawiau hyn i ben ym mis Mawrth 2012, ac rwyf wedi ymateb iddo.

#### Edrych ymlaen

— **Rwy’n disgwyl i Lywodraeth Cymru fonitro gweithrediad y canllawiau newydd hyn yn ofalus.**

## Ymddygiad rhywiol niweidiol

Y llynedd roeddwn yn edrych ymlaen at gyhoeddi Protocol Cymru Gyfan ar Ymddygiad Rhywiol Niweidiol, a gelwais ar y rhai yr oedd dyletswydd armynt i adolygu’r gwasanaethau y maent yn eu comisiynu i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ymddygiad rhywiol niweidiol. Cyflwynwyd ‘Protocol Cymru Gyfan: Rheoli Pobl Ifanc sydd ag ymddygiad rhywiol niweidiol’ ar gyfer ymgynghori ym mis Tachwedd 2011. Nid yw’r drafft terfynol wedi ei gyhoeddi eto. Unwaith bydd y protocol wedi ei gyhoeddi, byddaf yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gynllunio ar gyfer adolygu ei weithrediad.

## Masnachu mewn pobl

Rwy’n falch bod Protocol Cymru Gyfan ar Fasnachu mewn Plant wedi cael ei gyflwyno yn 2011. Wrth groesawu cyhoeddi’r protocol, nododd y Gweinidog effaith fy adroddiad ‘Ffiniau Pryder’ yn 2009 a chanfyddiadau Gr p Trawsbleidiol y Cynulliad ar Fasnachu mewn Pobl o ran tynnu sylw at y mater. Roedd penodi Cydgysylltydd cyntaf Cymru Gyfan ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl hefyd yn arwyddocaol. O ganlyniad i’r penodiad hwn, rwy’n deall bod dros 70 o sesiynau cynyddu ymwybyddiaeth wedi cael eu darparu i randdeiliaid allweddol ledled Cymru – sef un o’r argymhellion oedd yn ‘Ffiniau Pryder’.

Rwyf wedi cwrrd â Chydgysylltydd Cymru Gyfan ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl, a byddaf yn parhau i gefnogi ei waith ym mhob ffordd sydd ar gael i mi.

#### Edrych ymlaen

— **Rwy’n galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu gweithrediad y protocol newydd.**

## Ecsbloetio plant yn rhywiol

Bellach mae’r adolygiad o weithrediad y Canllawiau newydd ar ecsbloetio plant yn rhywiol, y cyfeiriais atynt yn fy adroddiad y llynedd, wedi digwydd. Rwy’n disgwyl cyhoeddi canlyniadau’r adolygiad hwn, a byddaf yn rhoi ymateb ysgrifenedig i’r canfyddiadau i Lywodraeth Cymru.

## Rhywioli plant a phobl ifanc

